

Adolygiad Cymru 2025/26



Cynnwys

Adran I: Adolygiad blynyddol

- 1-2 Adolygiad o'r flwyddyn
- 3 Amdanom ni
- 4 Cyd-destun allanol
- 5-6 Morol
- 7 Gwledig ac Arfordirol
- 8-9 Adolygiad ariannol

Adran II: Diweddariad ar ein Uchelgais Natur ar gyfer Cymru

- 11 Ein hymagwedd
- 12 Alinio â'n polisi amgylcheddol ar gyfer Cymru
- 13 Cyfleoedd ar y tir a'r môr
- 14-15 Uchafbwyntiau cynnydd ar y tir a'r môr
- 16-17 Ein data
- 18-19 Prif dargedau ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth
- 20-21 Tystiolaeth ac ymchwil a ariannwyd



Adolygiad o'r flwyddyn



“Mae sicrhau cytundebau i osod ffermydd gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd yn ganlyniad rhagorol sy'n adlewyrchu'r camau breision rydym wedi'u cymryd wrth gryfhau ein gweithrediadau yng Nghymru trwy bartneriaeth, buddsoddiad ac ymgysylltu.”

Dan Labbad
Prif Weithredwr

Croeso

Mae hon wedi bod yn flwyddyn bwysig o gynnydd i Ystad y Goron yng Nghymru, wrth i ni barhau i dyfu ein huchelgeisiau ar gyfer gwynt alltraeth a'r economi forol – gyda gweledigaeth glir bod yn rhaid i'r datblygiadau hyn ddarparu gwerth hirdymor i Gymru a chymunedau Cymru.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau sylweddol i gryfhau ein gweithrediadau trwy bartneriaeth, buddsoddiad ac ymgysylltu. Mae sicrhau cytundebau ar gyfer tri phrosiect gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd yn adlewyrchu'r ymdrechion hyn, gyda'r potensial i greu dros 5,000 o swyddi a chyfrannu £1.4 biliwn at yr economi ehangach. Ar adeg pan fo amodau yn y farchnad fyd-eang yn anarferol o heriol a bod tendrau mewn gwledydd eraill wedi methu â denu diddordeb, mae hwn yn ganlyniad rhagorol sy'n dangos yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

Cyfraniad Ystad y Goron fu darparu sefydlogrwydd a chyfeiriad trwy ein profiad a'n perthnasoedd hirhoedlog, wrth fuddsoddi'n sylweddol i leihau'r risg i'r tri phrosiect cyffrous hyn. Ochr yn ochr ag arbenigwyr eraill, gwnaethom gyfrannu tystiolaeth a mewnwelediad i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt Alltraeth Llywodraeth Cymru, gan arwain at gynllun gweithredu uchelgeisiol a gynlluniwyd i harneisio potensial gwynt alltraeth Cymru. Nawr rydym yn meithrin momentwm trwy Fforwm y Môr Celtaidd, gyda chefnogaeth Ynni Morol Cymru, ac yn gweithio gyda datblygwyr i gyflymu'r ddarpariaeth.

Bydd adeiladu sylfaen sgiliau leol, seilwaith a chapasiti cadwyn gyflenwi ar gyfer gwynt alltraeth yn hanfodol i gynnydd tymor hir, ac yn helpu i sicrhau cyflenwadau ynni a sefydlogi costau i gartrefi, gan ddarparu cyfleoedd i fusnesau a chreu swyddi newydd. Rydym yn helpu trwy ein Cyflymydd Cadwyn Gyflenwi, gan ddarparu miliynau o bunnoedd o gyllid i gwmnïau, darparwyr sgiliau a seilwaith porthladd cysylltiedig, a gweithio gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Bae Abertawe. Yn y cyfamser, mae ein cefnogaeth i brosiect Morlais ar Ynys Môn (gweler tudalen 14) yn helpu i arloesi ynni llif llanw yn nyfroedd Cymru, mewn ffordd sy'n amddiffyn bywyd morol.

Yn ogystal ag adeiladu diogeledd ynni, rydym yn parhau i ymdrechu i ddarparu canlyniadau ar gyfer natur, sy'n sail i wydnwch hinsawdd, gweithgarwch economaidd a lles pobl. Mae gweithgareddau fel ein prosiectau peilot adfer mawndiroedd yn dangos sut rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion lle gallant gael y budd mwyaf (gweler tudalen 7).

Eleni, parhaodd y gwaith craffu yng Nghymru, ac ym mis Medi roeddwn i a Chyfarwyddwr y Cenhedloedd Datganoledig yn falch o gael ein galw i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig yn San Steffan, gan rannu ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru gydag ASau o bob plaid. Roedd ein neges i'r pwyllgor yn glir: dim ond trwy gydweithio a gweledigaeth ar y cyd y gellir cyflawni blaenoriaethau fel gwynt alltraeth arnofiol ac adfer natur.

I'r perwyl hwnnw, rydym wedi sefydlu rhythm rheolaidd o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a swyddogion awdurdodau lleol ar draws ystod o bortffolios. Rhoddodd ein derbyniad yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2025 gyfle pwysig i glywed yn uniongyrchol gan Aelodau a phartneriaid, wrth rannu manylion ein cyfraniad at gymunedau arfordirol, adfer natur a'r economi. Rydym yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad a'r gefnogaeth drawsbleidiol barhaus.

Adolygiad o'r flwyddyn parhad

Er mwyn cryfhau ein hymagwedd ymhellach, gwnaethom sefydlu Fforwm Cymru newydd yn ddiweddar, gan ddod ag ystod eang o safbwyntiau ac arbenigedd lleol ynghyd. Bydd hwn yn cyfarfod yn ffurfiol am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2026, gan helpu i sicrhau bod lleisiau Cymru yn llunio ein gweithgareddau.

Un o gryfderau mawr Ystad y Goron yw ein gallu i gymryd golwg hirdymor wrth wasanaethu ein pwrpas: creu ffyniant parhaol a rennir. Mae'r canlyniadau yn yr adroddiad hwn yn dangos sut rydym yn cyflawni yng Nghymru heddiw wrth osod y sylfeini i ehangu ein heffaith yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys ein canlyniadau ariannol, crynodeb o'n gweithgareddau, a'n hadroddiad Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n nodi sut rydym yn gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.

Yn y flwyddyn i ddod, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda Michael Plaut, Comisiynydd newydd ein Bwrdd sydd â chyfrifoldebau arbennig dros Gymru, ochr yn ochr â'r tîm yn ein canolfan yng Nghaerdydd, aelodau'r Fforwm a phartneriaid i barhau i greu gwerth i Gymru ac ehangu ein heffaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dan Labbad
Prif Weithredwr



**Cyfleoedd o Rownd 5 Prydlesu
Ynni Gwynt ar y Môr**

>4 miliwn

nifer posibl o gartrefi gaiff eu pweru gan ynni
gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd

5,000

nifer y swyddi y gellid eu creu

£1.4 biliwn

cyfraniad posibl i'r economi ehangach

Amdanom ni

Pwy ydym ni

Mae Ystad y Goron yn fusnes annibynnol sy'n stiwardio tir a gwely'r môr er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae ein buddion yng Nghymru yn cynnwys porthladdoedd ac ynni adnewyddadwy, fel prosiectau gwynt a llanw ar y môr. Rydym yn prydesu gofod gwely'r môr ar gyfer piblinellau olew a nwy, agregau morol (a ddefnyddir mewn adeiladu) a'r ceblau a'r rhyng-gysylltwyr tanddwr sy'n helpu i reoli'r cyflenwad trydan a chario traffig data rhyng-gyfandirol. Rydym hefyd yn rheoli tua 65% o'r glannau a gwely'r afonydd llanw. Yn fewndirol, rydym yn stiwardio dros 50,000 erw o dir comin sy'n borfa garw yn bennaf, a ddefnyddir ar gyfer pori.

Wedi ein sefydlu gan Ddeddf Seneddol ac yn meddiannu gofod rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, rydym yn cael ein harwain gan bedwar piler strategol (ar y dde):

Ychwanegodd Deddf Ystad y Goron 2025 at ein deddfwriaeth sefydlu, gan roi pwerau benthyca a buddsoddi newydd inni a gwneud darpariaeth ar gyfer penodi Comisiynwyr ychwanegol ar gyfer y Bwrdd, gan gynnwys un â chyfrifoldeb arbennig dros roi cyngor ar Gymru, yn ogystal â'i ddyletswyddau eraill.

Yn dilyn proses benodi gyhoeddus agored a chystadleuol, cyhoeddwyd ym mis Mai 2026 fel mai Michael Plaut yw ein Comisiynydd Bwrdd cyntaf sy'n gyfrifol am adrodd ar amodau yng Nghymru. Mae gan Michael brofiad helaeth o arwain yn y sectorau ariannol, masnachol a di-elw yn ogystal â'r sector cyhoeddus. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol ac yn Aelod dros Gymru yn y BBC, Cadeirydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac yn gyn-Gadeirydd y CBI yng Nghymru. Mae hefyd yn Llywodraethwr ym Mhrifysgol De Cymru. Mae'n byw ac yn gweithio yng Nghymru a dyfarnwyd OBE iddo am ei wasanaethau i fusnes ac entrepreneuriaeth.

Mae penodi Comisiynydd i Gymru yn garreg filltir bwysig, gan atgyfnerthu ymrwymiad Ystad y Goron i dryloywder, partneriaeth ac ymgysylltu ystyrlon yng Nghymru. Mae'r gweithgareddau a'r canlyniadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn dangos ein bod yn gweithio'n galed i gwrdd ag anghenion a blaenoriaethau Cymru ac yn cyflawni effaith ystyrlon ar y cymunedau a wasanaethwn.




“Mae'n fraint wirioneddol ymuno â Bwrdd Ystad y Goron, ac rwy'n llawn cyffro ynghylch y cyfle sydd o'n blaenau. Rwy'n edrych ymlaen yn arbennig at ddod â dealltwriaeth a mewnwleidiad cryf o Gymru i drafodaethau'r Bwrdd, gan helpu i sicrhau bod buddiannau, a modau a chyfleoedd Cymru yn parhau i gael eu hadlewyrchu'n llawn wrth i ni wneud penderfyniadau ar gyfer y tymor hir.”

Michael Plaut
Comisiynydd â chyfrifoldeb dros Gymru

Ein strategaeth

Ynni a gwydnwch yn erbyn yr hinsawdd

Galluogi trawsnewid y DU i ddyfodol carbon isel, gwydn o ran hinsawdd a diogel o ran ynni



Adfer natur

Diogelu, adfer a chysylltu pobl â natur, ar draws tir, dinasoedd a môr



Twf cynhwysol

Cyfrannu at dwf cynhwysol sy'n datgloi potensial ac yn galluogi cymunedau i ffynnu trwy well mynediad at gartrefi, swyddi a seilwaith newydd



Enillion ariannol cyfrifol

Cynhyrchu enillion ariannol a gwerth yn gyfrifol i bobl yn y DU



Cyd-destun allanol

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau sylweddol i gryfhau ein gweithrediadau yng Nghymru, gan dyfu ein huchelgeisiau ar gyfer gwynt alltraeth a'r economi forol. Rydym yn glir yn ein gweledigaeth bod yn rhaid i'r datblygiadau hyn ddarparu gwerth hirdymor i Gymru a chymunedau Cymru trwy bartneriaeth, buddsoddiad ac ymgysylltu.

Wrth i'n gweithrediadau yng Nghymru dyfu, felly hefyd y mae diddordeb cyhoeddus a gwleidyddol ym mhresennol a dyfodol Ystad y Goron yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r ddadl a'r craffu ac yn ymateb yn gadarnhaol drwy sefydlu strwythurau a fframweithiau llywodraethu a fydd yn llywio ac yn arwain ein gwaith yn well.

Roedd etholiad Senedd 2026 ym mis Mai yn garreg filltir bwysig i Gymru, gyda nifer yr Aelodau'n cynyddu o 60 i 96, ac ethol llywodraeth gyntaf Plaid Cymru. Diolchwn i weinyddiaeth Lafur Cymru sy'n gadael am y perthnasoedd gwaith cadarnhaol a fu'n cefnogi camau cynnar ein cynlluniau Rownd 5 yn y Môr Celtaidd. Mae'r llywodraeth bresennol yr un mor ymrwymedig i wneud gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd yn llwyddiant, ac rydym yn gweithio'n agos gyda nhw i wireddu'r cyfle hwn.


Er mwyn sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl, rydym wedi sefydlu rhythm rheolaidd o ymgysylltu â swyddogion ar draws ystod o bortffolios. Roeddem yn falch o gael ein gwahodd i gyfrannu tystiolaeth i Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd i archwilio Dyfodol Ystad y Goron yng Nghymru a nodi cyfleoedd i wella ein llywodraethu a'n hatebolrwydd er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Gymru. Rydym yn cydnabod gwerth arbenigedd annibynnol wrth llywio blaenoriaethau'r dyfodol a byddwn yn ymgysylltu'n adeiladol i gefnogi cyflawniad yr argymhellion a amlinellir yn adroddiad interim y grŵp.

Ochr yn ochr â hyn, parhaom i gyfarfod yn rheolaidd â Phrif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru i drafod sut mae Ystad y Goron yn cyfrannu at flaenoriaethau o ran ynni, natur a chymunedau arfordirol. Roedd yn hynod bwysig i ni fod yn bresennol yn Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru y Prif Weinidog ac roedd ein Prif Weithredwr, Dan Labbad, wrth ei fodd yn rhoi'r prif anerchiad, gan amlinellu'r cyfleoedd buddsoddi a alluogir gan brydlesu ynni gwynt alltraeth yng ngogledd a de-orllewin Cymru.

Wrth gwrs, rydym yn atebol ar bob lefel o lywodraeth, ac rydym wedi bod yn gweithio i adeiladu ein perthnasoedd â Seneddwr y DU. Roedd rhoi tystiolaeth ffurfiol i ASau ar y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig y cyfle inni nodi ein cyfrifoldebau, ein hymagwedd a'n blaenoriaethau yng Nghymru.

Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau strategol ag awdurdodau lleol yng Nghymru, fel yr haen o lywodraeth sydd agosaf at gymunedau. Eleni, gwnaethom roi ein perthnasoedd â chynghorau lleol dan y chwyddwydr i ddeall sut y gallem wella ein buddsoddiadau i gefnogi twf lleol yn well, a sut y gallem foderneiddio ein trefniadau prydlesu mewn ffyrdd ymarferol a synhwyrol. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau dros y flwyddyn nesaf, ac rydym yn ddiolchgar i arweinwyr cynghorau, aelodau cabinet a swyddogion yr ydym wedi sefydlu perthnasoedd gwaith da â nhw er budd cymunedau lleol.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i weithio gyda diwydiant, buddsoddwyr a phartneriaid lleol i helpu datgloi cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad hirdymor, twf yn y gadwyn gyflenwi a budd economaidd ehangach. Ein ffocws fydd meithrin perthnasoedd cryf â Llywodraeth newydd Cymru ac Aelodau'r Senedd, cynnal parhad lle mae blaenoriaethau'n cyd-fynd, addasu i newidiadau mewn polisi, a chryfhau ein strwythurau llywodraethu i wella tryloywder ac atebolrwydd.



Morol

Ein portffolio Morol yw lle mae llawer o'n gweithgarwch yng Nghymru wedi'i ganoli, a lle mae'r cyfle mwyaf – nid yn unig i gynhyrchu ynni glân, ond i gefnogi swyddi, cryfhau cymunedau arfordirol a gwella'r amgylchedd naturiol dros y tymor hir.

Fel yr amlinellir ar dudalen 1, gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd yw ein rhaglen flaenllaw, ac rydym yn falch o fod wedi gwneud cynnydd mor fawr ar hyn yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn arwerthiant Rownd 5 Prydlesu Ynni Gwynt Alltraeth, a ddyfarnodd hawliau ar gyfer dwy fferm wynt arnofiol ym mis Mehefin 2025 i Gwynt Glas ac Equinor, gwnaethom ddyfarnu'r trydydd safle i Ocean Winds, datblygwr sydd â chryn brofiad rhyngwladol.

Mae gwynt alltraeth arnofiol yn dechnoleg sy'n dod i'r amlwg, ac ar adeg pan fo'r sector ynni yn wynebu llw o heriau yn fyd-eang, mae'r ffaith ein bod wedi gwneud cynnydd o'r fath ar Rownd 5 yn dipyn o gamp. Er bod ffordd hir o'n blaenau, mae ein degawdau o brofiad a buddsoddiad mewn gwynt ar y môr, a'n penderfyniad i fuddsoddi mewn rhaglen o arolygon cyn y rownd brydlesu i leihau risg i ddatblygwyr wedi gwneud prosiectau'r Môr Celtaidd yn hyfyw, a byddant yn helpu i gadw safle'r DU fel arweinydd byd-eang mewn gwynt ar y môr.

At ei gilydd, mae'r tair fferm wynt arnofiol yn debygol o ddarparu 4.5GW o ynni adnewyddadwy diogel, gan bweru cartrefi a busnesau a gosod Cymru ar flaen y gad o ran arloesi yn y sector. Ond o'r cychwyn cyntaf mae ein ffocws wedi mynd y tu hwnt i gynhyrchu ynni. Mae ein contractau datblygwyr yn cynnwys gofynion i greu gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol, gan helpu i sicrhau bod y cyfleoedd a grëir o fudd i fusnesau a chymunedau Cymru. Rydym yn falch o weld y datblygwyr llwyddiannus yn ymateb yn gadarnhaol i'w hymrwymiadau yn hyn o beth.

Mae Cyflymydd Cadwyn Gyflenwi £50 miliwn Ystad y Goron yn cefnogi prosiectau cam cynnar a fydd yn helpu i ddatblygu cadwyn gyflenwi hanfodol yn y DU. Hyd yn hyn, rydym wedi ariannu saith sefydliad yng Nghymru, o ddarparwyr sgiliau i borthladdoedd a chwmnïau arloesol, gan eu helpu i baratoi ar gyfer gofynion gwynt ar y môr.

Mae ein buddsoddiad ehangach mewn sgiliau a chyfleoedd yn cynnwys cefnogi'r rhaglen Addas ar gyfer Ynni Adnewyddadwy Alltraeth sy'n helpu cwmnïau lleol yn ne Cymru i feithrin eu gallu; ORE Catapult sy'n gweithio gyda busnesau yn Rhanbarth Dinas Bae Abertawe; a Fforwm Arfordirol Sir Benfro ar fentrau cymunedol sy'n ymwneud ag ynni gwynt ar y môr.

Mae rhaglenni fel ein Interniaeth Forol yng ngogledd Cymru yn helpu i feithrin sgiliau a chreu llwybrau i'r sector i bobl ifanc, gan sicrhau y gall y genhedlaeth nesaf chwarae rhan wrth lunio dyfodol ynni Cymru.

Gyda'i gilydd, bwriad y rhaglenni a'r mentrau hyn yw datblygu cadwyn gyflenwi a sylfaen sgiliau a fydd yn gwella canlyniadau, yn cadw gwerth yn lleol ac yn gwneud Cymru yn lle mwy deniadol ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy.

[Gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 6](#)

Ynni llanw

Ochr yn ochr â gwynt ar y môr, rydym wedi parhau i gefnogi datblygiad sectorau morol eraill sy'n bwysig i Gymru. Mae Ystad y Goron wedi bod yn rhan o brosiect arddangos ynni llif llanw Morlais ar Ynys Môn ers dros ddeng mlynedd.

Yn fwyaf diweddar, rydym wedi buddsoddi £2.6 miliwn yn ei Brosiect Ymchwil Nodweddu Morol, sy'n defnyddio technoleg arloesol i gofnodi gweithgch dolffiniaid (gweler tudalen 14 am ragor o fanylion). Nod y fenter gymdeithasol y tu ôl i Morlais, y prosiect mwyaf o'i fath sydd wedi'i ganiatáu yn y byd, yw cyrchu ei thechnoleg tyrbîn yn lleol lle bynnag y bo modd a chreu swyddi a sgiliau i bobl leol.

Mae ein cyfranogiad yn rhan o raglen waith ehangach gyda phartneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ynni llanw yn nyfroedd Cymru. Eleni, gwnaethom helpu i ariannu Tasglu Ynni Morol, sy'n dwyn ynghyd Lywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban, cyrff allweddol ac arweinwyr y diwydiant i fynd i'r afael â heriau a manteisio ar y cyfleoedd yn y sector arloesol hwn.

£2.6 miliwn

wedi'i fuddsoddi yn y Prosiect Ymchwil Nodweddu Morol

7

o sefydliadau Cymru wedi'u hariannu gan ein Cyflymydd Cadwyn Gyflenwi



Morol parhad

Cynllunio cyfannol

Wrth gwrs, mae nifer o alwadau eraill ar ofod gwely'r môr y tu hwnt i ynni adnewyddadwy, gan gynnwys pysgota, prosiectau adfer natur, ceblau data tanddwr a rhyng-gysylltwyr ynni, piblinellau olew a nwy, mwynau a agregau morol, llongau ac amddiffyn.

Er mwyn ein helpu i gydbwyso'r ystod gymhleth o flaenoriaethau a bodloni anghenion cenedlaethol, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys tîm Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru i ddeall y ffordd orau o ddefnyddio gofod gwely'r môr. Gan ddefnyddio'r data a'r dystiolaeth hon, rydym wedi datblygu offeryn cynllunio gofodol o'r enw Trywydd Cyflenwi Morol. Mae'r platfform digidol rhyngweithiol hwn yn helpu cynllunio hirdymor trwy fodelu gwahanol senarios, gan helpu i ddod o hyd i atebion sy'n cefnogi datblygiad economaidd ac adfer natur. Lanswyd cynllun peilot ym mis Chwefror 2026, ac rydym bellach yn ceisio adborth i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion ein rhanddeiliaid.

Dal a storio carbon

Gall dal a storio carbon chwarae rhan bwysig mewn datgarboneiddio ac rydym yn cefnogi ein cwsmeriaid i ddatblygu'r dechnoleg hon sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi prosiect Bae Lerpwl Eni fel rhan allweddol o glwstwr diwydiannol HyNet sy'n cwmpasu gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr.

Agregau morol

Mae agregau morol yn elfen hanfodol o'r gadwyn gyflenwi deunyddiau adeiladu, gyda 90% o dywod naturiol a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu yn ne Cymru yn cael ei godi o'r môr. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi swyddi a gweithgarwch economaidd mewn adeiladu, datblygu seilwaith a phrosiectau amddiffyn arfordirol.

Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn symud i fodel trwyddedu newydd, sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer, a chefnogi natur yn well trwy brydlesu ardaloedd ar wahân ar gyfer prosiectau unigol. Yn yr hirdymor, bydd Trywydd Cyflawni Morol yn rhoi gwelededd a hyder hirdymor i weithredwyr a buddsoddwyr.

Canlyniadau natur

Mae gofalu am yr amgylchedd morol yn llinyn cyson drwy ein holl waith. Mae ein Hegwyddorion Natur Forol yn arwain sut rydym yn gwneud penderfyniadau, gan sicrhau ein bod yn ystyried bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau ochr yn ochr â chanlyniadau economaidd.

Eleni, mae hynny wedi cynnwys cefnogi sefydlu Cronfa MARINE Cymru, bwrw ymlaen â gwaith i nodi cyfleoedd a phrosiectau i gryfhau Ardaloedd Gwarchoddedig Morol a pharhau i adeiladu'r data a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i reoli gwely'r môr yn gyfrifol dros amser. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i archwilio cyfleoedd mewn dyframaeth a'r economi las ehangach, er enghraifft trwy ddod ag ymchwilwyr, diwydiant a llunwyr polisi ynghyd yn y Symposiwm Gwymon yn Abertawe.

[➤ Gweler adroddiad Adran 6, tudalennau 10-21](#)



Capasiti peirianeg yn Noc Penfro

Mae nifer o atebion arloesol yn cael eu cynllunio i gefnogi gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd, gan gynnwys y systemau mwrio awtomataidd sy'n cael eu datblygu gan Ledwood Mechanical Engineering.

Wedi'i leoli yn Noc Penfro, mae'r cwmni'n un o'r cyflogwyr mwyaf yn ne-orllewin Cymru, ac yn darparu gwasanaethau peirianeg, cynhyrchu ac adeiladu ar gyfer y diwydiant.

Gyda phrofiad o gyflawni prosiectau seilwaith ar draws y sector ynni, mae mewn sefyllfa dda i gefnogi'r farchnad hon sy'n dod i'r amlwg.

Trwy ein Cyflwynydd Cadwyn Gyflenwi, mae Ystad y Goron wedi dyfarnu cyllid i Ledwood i ddatblygu ei atebion angori a mwrio, fel rhan o'n hymdrechion i gefnogi cadwyn gyflenwi Gymreig ar gyfer gwynt alltraeth arnofiol – a thrwy hynny, sgiliau medrus mewn cymunedau arfordirol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Ledwood, gan helpu i feithrin cysylltiadau a pherthnasoedd yn y sector gwynt alltraeth.

Gwledig ac Arfordirol

Drwy ein stiwardiaeth o dir comin a'n rheolaeth o lawer o'r glannau a gwely'r afonydd llanw, rydym yn cefnogi adferiad natur a gweithgarwch economaidd cynaliadwy, wrth fabwysiadu dull hirdymor, sy'n seiliedig ar le, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru.

Tir comin

Gan adeiladu ar ganlyniadau cadarnhaol o gynlluniau peilot rheoli tir (gweler yr astudiaeth achos), rydym yn gweithio i gyflawni effeithiau cadarnhaol ar raddfa fawr ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau a geir ar dir comin Cymru. Drwy sefydlu partneriaethau â chyrrff cadwraeth a chominwyr, rydym yn datblygu modelau adfer sy'n integreiddio gwybodaeth leol, anghenion defnydd tir a chysylltiadau diwylliannol, wrth gyflawni canlyniadau amgylcheddol hirdymor ac adeiladu economïau gwledig mwy gwydn.

Cymunedau arfordirol

Dros y flwyddyn, sefydlodd a chryfhodd ein tîm Arfordirol berthnasoedd drwy gyfarfod â 13 awdurdod lleol, gyda mwy o ymgysylltiad rheolaidd wedi'i gynllunio. O'r cyfarfodydd hyn, mae rhaglen waith ar y gweill i ailddychmygu'r berthynas rhwng awdurdodau lleol ac Ystad y Goron i adlewyrchu ein hymrwymiad i degwch a'n cydnabyddiaeth o'r rôl hanfodol y mae llywodraeth leol yn ei chwarae wrth gefnogi cymunedau arfordirol. Er enghraifft, rydym bellach yn datblygu cytundebau galluogi newydd a fydd yn rhoi mwy o ryddid i lesdeiliaid gyflawni ymyriadau sy'n fuddiol i gymunedau a natur.

Gofalu am yr arfordir

Mae gofalu am yr amgylchedd morol ac arfordirol yn rhan greiddiol o'n rôl fel stiwardiaid y glannau a gwely'r afonydd llanw. Rydym yn cydnabod bod ansawdd dŵr o bwys hanfodol, gan fod dyfroedd arfordirol yn sail i ecosystemau morol ffyniannus, twristiaeth, hamdden a lles cymunedau arfordirol. Trwy ein portffolio Arfordirol, rydym yn gweithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol i chwarae rhan wrth amddiffyn ac adfer systemau dŵr croyw, morol ac arfordirol.

Mae hyn yn cynnwys cefnogi Surfers Against Sewage, yr elusen amgylcheddol genedlaethol sy'n ymgyrchu dros foroedd glanach. Cyfrannom dros £100,000 i wella ei ap Moroedd ac Afonydd Mwy Diogel, gan ehangu cwmpas rhybuddion llygredd ac adrodd ar ddiwyddiadau a helpu pobl i ddeall amodau ansawdd dŵr amser real yn well ledled y DU. Buom hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i gael gwared ar nifer o longdrylliadau niweidiol o Aberdaugleddau a chynnal rhaglen clirio sbwriel morol bwrpasol.

➔ **Gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 15**

Wedi ymgynghori â

13

awdurdod lleol ar brydlesi galluogi newydd

Wedi cyfrannu

>£100,000

at wella ap Moroedd ac Afonydd Mwy Diogel



Adfer mawndiroedd

Mawn yw storfa garbon fwyaf y DU ac mae rhostiroedd iach yn cyflenwi symiau sylweddol o ddŵr yfed; fodd bynnag, mae tua 90% ohonynt wedi'u diraddio. Gyda mawndiroedd yn gorchuddio tua pumed ran o'n daliadaeth yng Nghymru, rydym yn cymryd camau gweithredu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal prosiect gyda'r RSPB a phorwyr lleol sydd â hawliau comin. Mae hyn wedi ein helpu i dreialu gwahanol dulliau a datblygu ein dull o adfer mawndiroedd, ymgysylltu â'r gymuned a monitro canlyniadau.

Ein bwriad erioed fu adeiladu model y gellir ei ehangu ac rydym bellach yn tynnu ar yr hyn rydym wedi'i ddsygu, i gynllunio llif pellach o waith adfer. Bydd ein cynllun peilot nesaf, sy'n cael ei gwmpasu gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phrifysgol Bangor, yn llywio ein gwaith tymor hwy i gyd-greu rhaglen mawndiroedd sy'n cyflawni gwelliannau gwydnwch hinsawdd a bioamrywiaeth yn ogystal â buddion i gymunedau lleol.

Adolygiad ariannol

Fel busnes annibynnol, rydym yn gweithredu'n fasnachol i gynyddu gwerth ein portffolio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yng Nghymru yn canolbwyntio ar sectorau morol, ac ynni adnewyddadwy yn bennaf. Rydym hefyd yn rheoli tua 65% o'r glannau a gwely'r afonydd llanw. Yn fewndirol, rydym yn stiwardio dros 50,000 erw o dir comin, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pori. Bob blwyddyn, mae elw ein cyfrif refeniw yn cael ei ddychwelyd i Drysorlys y DU er budd gwariant cyhoeddus.

Refeniw a chostau

Mae ffrydiau refeniw yn cynnwys prydlesu gofod gwely'r môr ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, asedau arfordirol, prosiectau mwynau ac agregau morol, piblinellau olew a nwy, ceblau data a rhyng-gysylltwyr ynni.

Yr elw gweithredol ar draws ein hasedau yng Nghymru yn ystod y flwyddyn oedd £210 miliwn. Roedd hwn yn ganlyniad eithriadol wedi'i yrru gan ffioedd opsiwn £200 miliwn o fferm wynt Mona, prosiect Rownd 4 Prydlesu Gwynt Alltraeth sydd 87% o fewn dyfroedd Cymru.

Mae'r datblygwr ym Mona wedi bod yn talu'r ffioedd hyn, a gafodd eu gosod mewn arwerthiant yn 2021, am hawliau unigryw i ddatblygu'r safle. Fel gyda rowndiau prydlesu eraill, mae'r ffioedd opsiwn hyn wedi'u cyfyngu gan amser ac wedi'u llwytho ymlaen llaw. Er eu bod wedi gyrru cynnydd sylweddol mewn refeniw eleni, mae'r incwm hwn bellach wedi dod i ben. Mae hyn oherwydd bod y datblygwr wedi gwneud cynnydd cyflym ac mae'r prosiect wedi mynd i'w gyfnod cyn-gynhyrchu. Mae incwm yn ystod y cyfnod cyn-gynhyrchu wedi'i osod yn llawer is a bydd yn gostwng fel y disgwylir yn 2026/27.

* Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli ffigurau ar gyfer Rownd 5 gyfan, gyda 50.2% yn nyfroedd Cymru

Dosraniad Cymru o rent cyn-gynhyrchu Mona yw £5.2 miliwn y flwyddyn, ac unwaith y bydd y fferm wynt yn dechrau cynhyrchu trydan, byddwn yn derbyn 2% o'r refeniw.

Rydym hefyd yn derbyn rhent cynhyrchu o ffermydd gwynt alltraeth Gwynt y Môr, North Hoyle a Rhyl Flats oddi ar arfordir gogledd Cymru. Dyma gyrrwr mwyaf ein helw gweithredol (ac eithrio Rownd 4) o £9.8 miliwn (2024/25: £7.8 miliwn). Roedd y cynnydd blwyddyn ar flwyddyn yn refeniw gwynt alltraeth Cymru yn bennaf oherwydd bod cyflymderau gwynt yn fwy ffafriol na chyfartaleddau hirdymor, a refeniw ffioedd di-opiwn o brosiect Mona (o'r pwynt y daeth i mewn i'r brydles).

Roedd costau gweithredu yn £2.9 miliwn (2024/25: £2.4 miliwn), sy'n cynnwys gwariant uniongyrchol ar weithgareddau Cymru a phriodoli costau canolog perthnasol.

Buddsoddi

Mae Ystad y Goron yn buddsoddi'n sylweddol i gefnogi dyfodol ynni adnewyddadwy yng Nghymru – gan gynnwys £40 miliwn* a wariwyd ar arolygon cyn-ganiatâd i leihau risg prosiectau Rownd 5 yn y Môr Celtaidd. Gyda'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau, gostyngodd costau cyfalaf yng Nghymru i £5.6 miliwn eleni (2024/25: £21.5 miliwn).

Ochr yn ochr â hyn, ers 2024 rydym wedi buddsoddi £18 miliwn* mewn prosiectau a allai gefnogi cyflawniad Rownd 5 (gweler tudalen 5), fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i fuddsoddi hyd at £400 miliwn mewn cadwyn gyflenwi gwynt alltraeth yn y DU. Mae ein rhaglen Tystiolaeth a Newid Ynni Gwynt Alltraeth wedi dyfarnu cyfanswm o £2.5 miliwn o gyllid i gefnogi prosiectau ymchwil sy'n ymglymu sefydliadau Cymreig, sy'n cynnwys cydweithio gyda NERC i ariannu'r rhaglen ECOWind.

Rydym hefyd yn cefnogi datblygiad ynni llanw, gyda buddsoddiad o £2.6 miliwn ym mharth llif llanw Morlais ar Ynys Môn (gweler tudalen 14) a chefnogaeth i'r Tasglu Ynni Morol ledled y DU.

Bydd y pwerau buddsoddi a benthycu newydd a gawsom drwy Ddeddf Ystad y Goron 2025 yn ein helpu i gynyddu ein buddsoddiad yng Nghymru yn sylweddol, yn enwedig i gefnogi ynni adnewyddadwy Cymru a'r gadwyn gyflenwi dros y degawd nesaf.

Gwerthusiad a rhagolygon

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26, rhoddwyd gwerth o £290 miliwn ar ein hasedau yng Nghymru – cynnydd o 22% flwyddyn ar flwyddyn yn dilyn dyfarnu contractau llwyddiannus ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth Rownd 5 ym Môr Celtaidd. Gosododd yr arwerthiant ffioedd opsiwn Rownd 5 ar £1.6 miliwn*, sy'n adlewyrchu'r amodau mwy heriol yn y farchnad fyd-eang yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'r dechnoleg llai aeddfed sy'n gysylltiedig ag ynni gwynt alltraeth arnofiol, sydd â phroffil risg a chost gwahanol.

Er bod y farchnad yn parhau'n anwadal, rydym yn hyderus y bydd ein profiad a'n cysylltiadau yn y sector yn ein galluogi i barhau i gynyddu ein hincwm a'n buddsoddiad dros amser, a datgloi gwerth pellach i fusnesau a chymunedau Cymru.

Mae rhagor o fanylion am y cyfraniad ariannol y mae Ystad y Goron yn ei wneud yng Nghymru, a'r refeniw disgwyliedig dros amser, wedi'u nodi yn adroddiad interim Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026.

[Darllewnwch adroddiad y Grŵp Arbenigol ar gov.wales/future-crown-estate-wales-interim-report](#)

£40 miliwn

wedi'i wario ar arolygon i leihau'r risg yn Rownd 5 yn y Môr Celtaidd*

£400 miliwn

o ymrwymiad i fuddsoddi yng nghadwyn gyflenwi ynni gwynt alltraeth y DU

Adolygiad ariannol parhad

Cyfriflen ariannol

Elw a Chollod, £m	BA26	BA25
Cyfanswm refeniw	12.7	10.2
Cyfanswm costau	(2.9)	(2.4)
Elw gweithredu ag eithrio Rownd 4	9.8	7.8
Ffioedd opsiwn Rownd 4	200.2	245.6
Elw gweithredu gan gynnwys Rownd 4	210.0	253.4

Refeniw yn ôl sector (ag eithrio Rownd 4)

Refeniw, £m	BA26	BA25
Morol – Gwynt Alltraeth	5.9	3.6
Morol – Arfordirol	0.8	0.7
Morol – Mwynau	1.5	1.5
Morol – Asedau Llinol	2.3	2.0
Cyfanswm Morol	10.5	7.8
Windsor a Gwledig – Arfordirol	1.3	1.3
Windsor a Gwledig – Gwledig	1.0	1.0
Cyfanswm Windsor a Gwledig	2.2	2.4
Cyfanswm Cymru	12.7	10.2

Gwariant cyfalaf

Cyfalaf, £m	BA26	BA25
Morol	5.0	21.0
Gwledig	0.6	0.5
Cyfanswm	5.6	21.5

Gwerth portffolios

Gwerth, £m	BA26	BA25
Morol – Gwynt Alltraeth	218	169
Morol – Mwynau	19	18
Morol – Asedau Llinol	21	18
Morol – Arfordirol	9	9
Cyfanswm Morol	267	214
Gwledig – Arfordirol	15	14
Gwledig – Amaethyddol	9	9
Cyfanswm Gwledig	24	23
Cyfanswm	290	237

Ein Huchelgais Natur i Gymru

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) –
Diweddariad ar Adroddiad Dyletswydd
Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau




Ein hymagwedd tuag at adfer natur yng Nghymru

Mae amddiffyn ac adfer natur yn ganolog i waith Ystad y Goron, fel un o bedwar piler strategaeth ein cwmni.

Mae Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn tynnu sylw at faint yr her: mae un o bob pump rhywogaeth dan fygythiad, a dim ond 40% o gyrff dŵr sy'n cael eu hystyried mewn cyflwr "da". Gyda bygythiadau parhaus gan newid hinsawdd, llygredd a defnydd dwys o dir a dŵr, mae gweithredu ar y cyd yn hanfodol.

Felly rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, CNC a sefydliadau amgylcheddol eraill, diwydiant, pobl gyffredin a chymunedau lleol i gynorthwyo natur i adfer a ffynnu. Gan ddilyn eu canllawiau ar sut y gallem gyfrannu orau at Gynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd ein Huchelgais ar gyfer Adfer Natur yng Nghymru ddechrau 2025. Cafodd ei baratoi yn unol â'n dyletswyddau statudol o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymgorffori cefnogaeth i fioamrywiaeth yn eu polisiau, rhaglenni a gweithgareddau, gydag adroddiad tair blynedd o'r camau a gymerwyd.

Mae'r diweddariad hwn yn ategu at ein hadroddiad o 2025, gyda ffocws ar sut rydym yn gweithredu ein nod bioamrywiaeth (un o dri nod ar draws y cwmni, a ddangosir ar y dde). Mae'r tudalennau canlynol yn rhannu cynnydd ar ein targedau a'n camau gweithredu yn y flwyddyn hyd at Fawrth 2026, ac yn nodi targedau a chamau gweithredu ar gyfer y tair blynedd nesaf.




Alinio ein Huchelgais Adfer Natur â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol

Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) yw'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Wedi'i chyhoeddi'n wreiddiol yn 2015 a'i hadnewyddu yn 2021, mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth i adfer yr amgylchedd naturiol a'i wneud yn fwy gwydn.

Mae Uchelgais Adfer Natur Ystad y Goron yn cyd-fynd yn agos â'r ddogfen hon, gan gynnwys tri nod (gweler tudalen 11) a phedwar piler ein hymagwedd: deall, dylunio ar gyfer, ariannu a chreu partneriaethau ar gyfer natur.

Mae'r diagram i'r dde'n dangos sut mae ein nod a'n hymrwymadau ar gynyddu bioamrywiaeth yn cyd-fynd â fframwaith y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yng Nghymru.



Cyfleoedd ar y tir a'r môr

Gydag asedau sy'n cwmpasu tir a môr, rydym yn gyfrifol am stiwardio ystod eang o gynefinoedd naturiol.

Mae'r rhain yn cynnwys gwarchodfeydd natur, coetiroedd hynafol a miloedd o Gynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf fel y'u dynodir gan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, megis glaswelltir, rhostir, porfeydd, corsydd a ffeniau. Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi ar dudalen 16.

Yn ystod y cyfnod adrodd, buom yn gweithio gyda phartneriaid i greu llinell sylfaen fel man cychwyn i lywio ein gweithgarwch adfer natur. Gwnaethom wella ein setiau data cynefinoedd a rhywogaethau, diweddarau mapio ardaloedd morol gwarchoddedig a nodi ardaloedd â photensial cryf ar gyfer adfer a gwella, gan gynnwys cynefinoedd morwellt ac wystrys brodorol.

Oherwydd maint ein daliadau, nid ydym eto mewn sefyllfa i adrodd ar gyflwr yr holl gynefinoedd yn ein gofal. Fodd bynnag, rydym wedi defnyddio data a gafwyd o Gyfoeth Naturiol Cymru i edrych ar gyflwr mawndiroedd, yn ogystal â'u dyfnder a'u gallu allyrru a dalfa posibl. Rydym hefyd wedi crynhoi'r Rhywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf sy'n bresennol yn ein portffolio.



Uchafbwyntiau cynnydd ar y môr



Er mwyn sicrhau bod natur yn cael ei ddiogelu yn ein gweithredoedd Morol, gwnaethom gyhoeddi **Egwyddorion Arweiniol Natur Morol** a fydd yn llunio ein prosesau gwneud penderfyniadau.

£500,000



Gan gydnabod y bwlch ariannu, gwnaethom gyfrannu £500,000 mewn cyllid hadau i helpu i sefydlu **Cronfa MARINE Cymru**. Nod y gronfa yw denu buddsoddiad ychwanegol mewn prosiectau sy'n cryfhau gwydnwch ecosystemau morol ac arfordirol ledled Cymru.



Gan weithio gyda CNC a phartneriaid eraill, rydym yn mireinio mapiau potensial adfer ar gyfer wystrys brodorol a glaswellt y môr i amlygu'r ardaloedd mwyaf ymarferol i adfer y cynefinoedd hanfodol hyn.



Mae Cynlluniau Canlyniad Amgylcheddol Cadarnhaol bellach wedi'u hymgorffori mewn contractau ar gyfer **Rownd 5 Prydlesu Ynni Gwynt** ar y Môr, ar ôl i dendrwyrfod amlinellu mesurau y byddent yn eu cymryd i gefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch yn y Môr Celtaidd.



Amddiffyn mamaliaid morol ym Morlais

Rydym yn falch o gefnogi Rhaglen Ymchwil Nodweddu Morol Morlais, sy'n helpu i amddiffyn mamaliaid a chynefinoedd morol wrth alluogi datblygiad pŵer llanw yn nyfroedd Cymru.

Mae menter gymdeithasol Morlais yn helpu i roi Cymru ar flaen y gad o ran y dechnoleg newydd hon, gan ddefnyddio tyrbinau ynni llanw o fewn parth arddangos oddi ar Ynys Môn. Mae'r Rhaglen Ymchwil Nodweddu Morol yn gwella dealltwriaeth o sut y gall mamaliaid morol ryngweithio â'r dyfeisiau hyn, ac yn datblygu technoleg monitro a lliniaru.

Rydym wedi darparu £2.6 miliwn o gyllid ar gyfer y rhaglen hyd yma, sy'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu system aml-synhwyrdd arloesol a all ganfod mamaliaid morol yng nghyffiniau tyrbinau gweithredol a'u hatal rhag mynd i'r ardal. Gallai'r galluedd hyn gael eu defnyddio'n llawer ehangach ar draws sectorau eraill, gan gynnwys dyframaeth a physgodfeydd.

Mae'r rhaglen hefyd yn cyfrannu tystiolaeth amgylcheddol werthfawr a fydd yn cael ei rhannu trwy ein Cyfnewidfa Data Morol, gyda'r nod o gefnogi prosiectau ynni morol yn y dyfodol.

Uchafbwyntiau cynnydd ar y tir



Dysgu o ganlyniadau **cynlluniau peilot adfer mawndiroedd** i baratoi llif mwy o gyfleoedd yn y dyfodol gyda phartneriaid a chyd-berchnogion tir mewn ardaloedd eraill.

➤ **Gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 7**



Dechrau datblygu **dulliau a rennir ar gyfer adfer natur** ar y tiroedd comin gyda phorwyr, cymunedau lleol, cyrff statudol a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad tymor hir i greu gweledigaethau a chynlluniau gweithredu ar gyfer tiroedd comin dethol erbyn 2030.



Cyfarfod 13 â swyddogion awdurdodau lleol i drafod symudiad tuag at gytundebau prydles mwy cydweithredol, **gan alluogi cytundebau prydles** a fydd yn rhoi mwy o ryddid i lesddeiliaid gyflawni ymyriadau sy'n fuddiol i gymunedau a natur.



Cymryd camau i amddiffyn yr amgylchedd a'r gymuned gyfagos ar ôl i archwiliad ganfod bod cronfa ddŵr ger **Blaenau Ffestiniog** yn peri risg uniongyrchol. Cydlynu ag awdurdodau lleol, gwasanaethau brys a Chyfoeth Naturiol Cymru wrth i beirianwyr arbenigol ostwng lefelau dŵr yn ddiogel.



Glanhau arfordiroedd Cymru

Eleni, boom yn gweithio gydag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau i gyflawni ein rhaglen tynnu llongdrylliadau gyntaf yng Nghymru.

Arweiniodd y prosiect yng Nghastell Pill at gael gwared yn ddiogel ar nifer o longau gwag, eitemau a oedd wedi'u tipio'n anghyfreithlon a sbwriel a oedd nid yn unig yn peri perygl i bobl, ond i fywyd morol – yn enwedig wrth i wydr ffibr chwalu a mynd i mewn i'r gadwyn fwyd.

Mae'r gwaith wedi cefnogi bywyd gwylt lleol ac wedi dileu'r bygythiad posibl i gychod eraill, gan leihau'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd wedi'i ddenu. Yn y tymor hwy, mae ein tîm Arfordirol yn awyddus i ddatblygu rhaglen genedlaethol i gael gwared ar longdrylliadau sy'n peri risgiau i fordwyo, yr amgylchedd a diogelwch y cyhoedd.

Ein data

Cyhoeddwyd y data a rennir yn yr adroddiad hwn yn unol â'n rhwymedigaethau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

➤ Gweler ein hadroddiad 2025 yn [thecrownestate.co.uk](https://www.thecrownestate.co.uk)



Dynodiadau cadwraeth natur a Chynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf

Math o ddynodiad	Hectarau tir	Hectarau rhynglanwol	Hectarau môr
Rhestr Coetiroedd Hynafol	70	-	-
Cynefin o Bwysigrwydd Pennaf	13,788	-	-
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) / Tirweddau Cenedlaethol	177	4,087	-
Gwarchodfeydd Natur Lleol	1	1,222	-
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	12,401	16,494	19,766
Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)	8,649	7,984	442,456
Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)	8,550	14,723	479,898
RAMSAR	5	4,467	5,540
Gwarchodfa Natur Genedlaethol	5	3,238	-
Parciau Cenedlaethol	7,506	3,595	-
Parthau Cadwraeth Morol	-	-	1,281

Mae'r ffigurau'n dangos arwynebeddau (mewn hectarau) o ddynodiadau amgylcheddol sydd wedi'u lleoli ym mherchnogaeth Ystad y Goron, wedi'u rhannu'n dir, rhynglanwol, a môr.

Dynodiadau cadwraeth natur a Chynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf parhad

Rhywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf


Canfu ymarfer casglu data o gronfa ddata GBIF/NBN o rywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn rhestr Rhywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf UKBAP 2007 JNCC 118 o rywogaethau gwahanol o'r rhestr hon a gofnodwyd rhwng 2016 a 2026 ar dir yn ein perchnogaeth (mae 1150 o wahanol rywogaethau ar restr gynhwysfawr JNCC). Mae'r data hwn yn cynrychioli casgliadau data gwirfoddol na chawsant eu comisiynu gan Ystad y Goron; o'r herwydd mae hwn yn ddata agored ac ni allwn warantu ei gywirdeb. Mae'n bwysig nodi bod y cofnodion hyn yn ddiamau yn tanamcangyfrif y gwir helaethrwydd.

Y rhywogaethau mwyaf niferus a gofnodwyd o fewn perchnogaeth tir Ystad y Goron o fewn y categori rhestr goch (a nodir fel "bygythiad rhyngwladol" gan JNCC) rhwng 2016 – 2026 yw:

- *Vanellus vanellus* – Cornchwiglen – aderyn (n= 1081)
- *Aythya marila* – Hwyaaden Benddu – aderyn (n= 124)
- *Phocaena phocaena* – Llamhdydd – rhywogaeth forol (n= 81)
- *Salmo trutta* – Brithyll/Siwin – pysgodyn (n= 51)

Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys y rhywogaethau mwyaf niferus a gofnodwyd sy'n bodloni categori "Cyfrifoldeb rhyngwladol + dirywiad cymedrol yn y DU" JNCC:

- *Numenius arquata* – Gylfinir – aderyn (n= 2309)
- *Anguilla anguilla* – Llysywen – pysgodyn (n= 37)



Dwysedd Rhywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf a gofnodwyd ar weithredoedd tir Ystad y Goron (tir a glannau) rhwng 2016–2026 ar gronfa ddata GBIF

Prif dargedau ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth

Mae'r tabl hwn yn dangos ein prif dargedau ar gyfer môr a thir, yr amcan o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur y mae pob targed yn mynd i'r afael ag ef, ein cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'n camau gweithredu arfaethedig hyd at fis Mawrth 2029.

Ardal	CGAN	Prif darged	Cynnydd yn 2025/26	Camau gweithredu hyd at fis Mawrth 2029
Môr	1	M1. Integreiddio natur fel blaenoriaeth i'r Trywydd Cyflawni Morol, gan dynnu ar ein sylfaen dystiolaeth Gwely'r Môr Cyfan i: a) nodi'r lleoliadau mwyaf addas ar gyfer ymyriadau adfer natur mewn partneriaeth â rhanddeiliaid erbyn 2028. b) Dyblu'r ardal a brydesir i weithgareddau sy'n canolbwyntio ar adfer natur forol ac arfordirol erbyn 2030, wedi'i fesur yn erbyn llinell sylfaen 2025.	<ul style="list-style-type: none"> – Lansio Egwyddorion Arweiniol Natur i lywio gwneud penderfyniadau morol. – Cyhoeddi fframwaith ar gyfer cyflawni adferiad natur. (Deall, Dylunio, Ariannu, Partneru dros Natur). – Cyflwyno dwy drwydded ar gyfer adfer glaswellt y môr (de Cymru) ac adfer adar y môr (gogledd Cymru), yn cwmpasu naw hectar. 	<ul style="list-style-type: none"> – Datblygu Map Cyfleoedd Natur Strategol (wedi'i fewnosod yn y Trywydd Cyflawni Morol) erbyn blwyddyn ariannol 2027. – Ehangu gweithgarwch adfer trwy wella trwyddedu a chefnogaeth i brosiectau anfasnachol. – Defnyddio mapio i dargedu ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer adfer a datblygu natur. – Cyflawni'r targed i ddyblu'r ardal a brydesir ar gyfer adfer natur forol ac arfordirol erbyn 2030.
Môr	2,3	M2. Cynyddu dealltwriaeth o gyflwr cynefinoedd gwarchoddedig a bregus, y tu mewn a'r tu allan i Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (AMGau), o fewn ein hawdurdodaeth, gan weithio gydag eraill i gefnogi gwelliant erbyn 2030.	<ul style="list-style-type: none"> – Datblygu templed ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Natur Forol. – Ariannu ymchwil i wella dealltwriaeth ofodol o botensial adfer morfeydd heli, morwellt ac wystrys brodorol yng Nghymru. – Cymryd rhan yn CaSP Cymru, Rhwydwaith Morwellt Cymru a Rhwydwaith Morfeydd Heli Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> – Datblygu Cynlluniau Gweithredu Natur gyda rhanddeiliaid eraill mewn lleoliadau lle bo'n briodol gan ganolbwyntio ar wella tystiolaeth cyflwr cynefinoedd erbyn 2028. – Ehangu'r lliw o brosiectau adfer natur forol. – Cefnogi datblygiad technolegau monitro yn ACA Morlais.
Môr	1,2,3,5	M3. Cyflymu buddsoddiad y sector preifat mewn natur a chefnogi datblygiad mecanweithiau cyllid arloesol ac uchel eu hygredded.	<ul style="list-style-type: none"> – Darparu £500,000 o gyllid hadau i Gronfa MARINE Cymru i ddatgloi buddsoddiad pellach. – Cyhoeddi Trywydd Marchnadoedd Cyfalaf Naturiol Morol Uniondeb Uchel (2024). – Cefnogi datblygiad offer cyllid, llwyfannau data (Cyfeiriadur Gwella Morol) a phrosiectau adfer peilot. 	<ul style="list-style-type: none"> – Cyhoeddi pecyn cymorth cyllid natur forol (trwy Green Finance Institute Hive). – Cyd-gynnal Diwrnod Cyllid Morfeydd Heli i gysylltu buddsoddwyr a datblygwyr prosiectau. – Helpu cyflwyno ac ehangu Cronfa MARINE Cymru. – Parhau i ddatblygu prosiectau natur y gellir buddsoddi ynddynt a chryfhau marchnadoedd cyfalaf naturiol morol.
Môr	3,4,5	M4. Datblygu a chyhoeddi ein llinell sylfaen natur orau sydd ar gael yn flynyddol o 2026, gyda thystiolaeth ar gynefinoedd a rhywogaethau symudol o'n dull Gwely'r Môr Cyfan.	<ul style="list-style-type: none"> – Gwella setiau data Gwely'r Môr Cyfan gyda CNC, gan gynnwys data Adran 7 a chynefinoedd OSPAR. – Cynrychiolaeth well o ddata Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru a data rhywogaethau. – Cyfrannu at Aseiad Gofodol Llywodraeth Cymru o Foroedd Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> – Datblygu Map Cyfleoedd Natur Strategol (wedi'i fewnosod yn y Cynllun Datblygu Morol) erbyn blwyddyn ariannol 2027. – Cyhoeddi setiau data drwy'r Gyfnewidfa Data Morol i wella hygyrchedd. – Cwblhau offer a methodolegau gofodol i gefnogi adferiad.

Prif dargedau ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth parhad

Mae'r tabl hwn yn dangos ein prif dargedau ar gyfer môr a thir, yr amcan o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur y mae pob targed yn mynd i'r afael ag ef, ein cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'n camau gweithredu arfaethedig hyd at fis Mawrth 2029.

Ardal	CGAN	Prif darged	Cynnydd yn 2025/26	Camau gweithredu hyd at fis Mawrth 2029
Môr	2,3	M5. Datblygu a chymhwyso egwyddorion natur ar gyfer pob tendr a phrydles newydd i roi cymhellion i gyflawni canlyniadau ar gyfer natur ar draws pob sector yn yr amgylchedd morol ac arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> – Lansio Egwyddorion Arweiniol Natur (Ionawr 2026). 	<ul style="list-style-type: none"> – Ymgorffori Egwyddorion Natur ar draws tendrau, prydesi a gweithgareddau portffolios morol. – Cyhoeddi Trywydd Natur sy'n amlinellu llwybrau ac amserlenni cyflawni (2026). – Defnyddio Map Cyfleoedd Strategol i arwain penderfyniadau buddsoddi a datblygu sy'n gadarnhaol o ran natur.
Môr	2,3,4	M6. Parhau i gefnogi mentrau effeithiol sy'n darparu budd i rywogaethau yr effeithir arnynt, sydd dan fygythiad neu sy'n nodedig yn yr amgylchedd morol ac arfordirol.	<ul style="list-style-type: none"> – Gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, RSPB a JNCC i wella data adar môr a mapio ardaloedd chwilota bywyd allweddol. – Cyfuno data presennol a newydd i gryfhau dealltwriaeth o gynefinoedd arfordirol ac alltraeth allweddol. 	<ul style="list-style-type: none"> – Parhau ag ymchwil a gyd-ariennir gyda phartneriaid i fynd i'r afael â bylchau allweddol mewn tystiolaeth eicolegol. – Gwella dealltwriaeth o effeithiau sectorau ar rywogaethau a chynefinoedd morol. – Cefnogi datblygiad offer a thystiolaeth i lywio gwneud penderfyniadau.
Tir	1,2,3,4,5	T1. Gweithio gyda phorwyr sydd â hawliau comin, cymunedau lleol, asiantaethau statudol a rhanddeiliaid eraill i gytuno ar weledigaeth adfer natur a rennir ar gyfer tiroedd comin dethol yng Nghymru, drwy nodi cyfleoedd adfer natur allweddol ar dir comin sydd o fewn ein perchnogaeth a dechrau rhoi cynlluniau gweithredu ar waith erbyn 2030.	<ul style="list-style-type: none"> – Cwblhau arolwg i nodi cyfleoedd adfer natur ar dir rhent yng Ngogledd Cymru. – Datblygu cynllun peilot adfer mawndiroedd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chominwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> – Ehangu'r dull ar gyfer ardaloedd ychwanegol o dir comin. – Datblygu gweledigaeth a chynlluniau gweithredu ar y cyd ar gyfer adfer natur gyda rhanddeiliaid. – Ehangu prosiectau adfer mawndiroedd a chynefinoedd ar raddfa'r rivedd. – Cymhwyso methodoleg arolygu ac asesu ar draws safleoedd blaenoriaeth.
Tir	1,2,4,5	T2.. Cynyddu rheolaeth gadarnhaol Safleoedd Gwledig o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Chynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf, yng Nghymru. Cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Natur erbyn 2028 i wella eu cyflwr a rhoi'r camau gweithredu ar waith erbyn 2030.	<ul style="list-style-type: none"> – Adfer mawndir tua 5ha a rheolaeth tir gysylltiedig ar SoDdGA Mynydd Hiraethog. 	<ul style="list-style-type: none"> – Cwblhau'r garfan gyntaf o Gynlluniau Gweithredu Natur erbyn blwyddyn ariannol 2027. – Datblygu llinell sylfaen o rywogaethau gan ddefnyddio data'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol a'i halinio â rhestr y Datganiadau o Berthnasau. – Rhannu methodolegau gyda CNC a phartneriaid i'w helpu i gael eu defnyddio'n ehangach.

Tystiolaeth ac ymchwil a ariannwyd

Mae'r tabl hwn yn dangos yr ystod o brosiectau ymchwil sy'n gysylltiedig â Chymru mae Ystad y Goron yn eu cefnogi.

	Cyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol
ECOFlow Frontline	Dechreuodd y prosiect hwn, sy'n ymchwilio i effeithiau gwynt alltraeth arnofiol ar ffryntiau Cefnforoedd y Môr Celtaidd a bioamrywiaeth ar lefel ecosystemau, eleni gyda chynllunio gwaith maes, gan weithio gyda datblygwyr gwynt alltraeth, rheoleiddwyr, cyrff llywodraeth a chynrychiolwyr pysgodfeydd.	Gwaith maes a chasglu data yn y Môr Celtaidd. Mapiau, cyhoeddiadau gwyddonol a chyflwyno setiau data.
FRONTWARD	Gwella ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng glannau cefnforoedd a mannau poblogaidd o ran bioamrywiaeth (yn enwedig rhywogaethau symudol) a gwerthuso sut y gellir defnyddio'r data hwnnw wrth gynllunio sectorau morol yn y dyfodol, fel ynni alltraeth adnewyddadwy.	Gwella amserlenni data i gynyddu hyder. Integreiddio canfyddiadau i'n sylfaen dystiolaeth Gwely'r Môr Cyfan a'u defnyddio wrth gynllunio.
Subsea Soundscape	Gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid, ymchwilio i amodau sŵn tanddwr a phresenoldeb mamaliaid morol ym Môr Celtaidd. Bydd deall yr amodau sylfaenol hyn yn helpu prosiectau gwynt alltraeth arnofiol yn y dyfodol.	Casglu data acwstig a chynhyrchu canllawiau i gefnogi gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd. Arloesi fframwaith rhanbarthol newydd i gefnogi asesiad amgylcheddol yn y dyfodol.
Tri phrosiect a gynhelir gan y Rhaglen Cyd-ddiwydiant Ynni Alltraeth Adnewyddadwy (ORJIP)	Gyda chefnogaeth amrywiaeth o randdeiliaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ogystal ag Ystad y Goron, nod y tri phrosiect hyn oedd deall effaith natur gwynt alltraeth: Gwellodd QuMR sut mae marwolaethau adar môr o ganlyniad i ddadleoli gwynt alltraeth yn cael eu hamcangyfrif, gan gryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer asesiadau amgylcheddol. Datblygodd prosiect InTAS (Integreiddio data Tracio ac Arolwg ar y Môr) fframwaith integredig sy'n cyfuno data arolwg a thelemetreg i wella amcangyfrifon o ddsbarthiadau oedran adar môr ac asesu effeithiau datblygiadau ynni alltraeth adnewyddadwy yn well. Cynhaliodd BenCH (Newidiadau Cynefin Benthig) ddadansoddiad aml-safle o ddata monitro benthig i ymchwilio i newidiadau cynefinoedd benthig ar ôl adeiladu ffermydd gwynt ar y môr.	Mae'r canllawiau ar gyfer y tri phrosiect bellach wedi'u cynhyrchu a'u cyhoeddi ar y Gyfnewidfa Data Forol.
ECOWind PELAgIO	Mae PELAgIO (Asesiad Lefel Ffiseg i Ecosystem o Effeithiau Ffermydd Gwynt ar y Môr) yn cael ei gynnal drwy Brifysgol Aberdeen fel rhan o raglen ymbarél ECOWind. Mae'n archwilio sut mae gwynt alltraeth sefydlog yn newid prosesau ffisegol ac yn effeithio ar y gadwyn fwyd.	Bydd PELAgIO yn cyflawni nifer o allbynnau a fydd yn llywio cyflawniad enillion net ac yn helpu'r DU i weithio tuag at Statws Amgylcheddol Da gan gynnwys: cyhoeddiadau, modelau ac offer gwneud penderfyniadau i asesu cyfaddawdu polisi.

Tystiolaeth ac ymchwil a ariannwyd parhad

Mae'r tabl hwn yn dangos yr ystod o brosiectau ymchwil sy'n gysylltiedig â Chymru mae Ystad y Goron yn eu cefnogi.

	Cyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol
Prosiect PhD ym Mhrifysgol Bangor	Rydym wedi noddi a chyd-oruchwylio PhD ar "Defnyddio dulliau seiliedig ar nodweddion i ddeall effeithiau gwynt alltraeth ar brosesau a gwasanaethau ecosystemau". Mae'r myfyriwr ôl-raddedig bellach ym mlwyddyn olaf ei rhaglen PhD pedair blynedd ac wedi bod yn rhoi cyflwyniadau mewn cynadleddau a fforymau.	Bydd y PhD yn cynnwys argymhellion rheoli a pholisi a chaiff ei gyflwyno i'w gyhoeddi yn 2027.
ProcBE	Dan arweiniad y Pwyllgor Cadwraeth Natur ar y Cyd, Astudiodd ProcBE (Ymddygiad a Demograffeg Procellariiform) gytrefi adar drycin a phedrynnod yng Nghymru a thu hwnt i wella sut mae'r rhywogaethau hyn yn cael eu hasesu wrth gynllunio ynni gwynt ar y môr, gan gefnogi datblygiad ynni gwynt arnofiol yn y dyfodol.	Cyflawni'r canlyniadau/canllawiau.
ReSCUE	Cynhaliodd ReSCUE (Lleihau Gwrthdrawiadau Adar Môr Gan Ddefnyddio Tystiolaeth) arolygon adar môr oddi ar Ynys Môn a Sir Benfro i lenwi bylchau data allweddol ar uchder a chyflymder hedfan, gan wella asesiadau effaith ar gyfer gwynt ar y môr.	Cyflawni'r canlyniadau/canllawiau.
Prosiect Ymchwil ECOFlow Equify	Bydd Equify (Sefydlu Fframwaith ar gyfer Tystiolaeth Feintiol ac Effaith Newid Ecosystemau drwy gydo! Cylch Bywyd Prosiect Ymchwil Fferm Wynt Alltraeth Arnofiol y DU) yn asesu effeithiau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd cronus gwynt alltraeth arnofiol. Mae'n defnyddio data hanesyddol a chyfoes i ategu rhagfynegiadau o bwysau tebygol yn y dyfodol, gan gynnwys newid hinsawdd a defnydd morol sy'n esblygu.	Mae'r prosiect yn ei ail flwyddyn, gyda gwaith maes wedi'i gynllunio ar gyfer haf 2026 a 2027 a bydd yn cynhyrchu ystod o allbynnau, modelau a chanllawiau polisi.

Cydnabyddiaethau delweddau

Tudalen 2

© Rob Norman/HayMan Media/ABP

Tudalen 5

© Kirsty Andrews/UPY 2023

Tudalen 6

Ledwood

Tudalen 10

Gordon Hastie – SMRU

Oni nodir yn wahanol, mae hawlfraint y delweddau yn eiddo i Ystad y Goron.

Diolch

Llundain

The Crown Estate
1 St James's Market
London
SW1Y 4AH

F 020 7851 5000

Windsor

The Crown Estate
The Great Park
Windsor
SL4 2HT

F 01753 860 222

Caerdydd

Ystad y Goron
Hodge House
114-116 Stryd y Santes Fair
Caerdydd
CF10 1DY